| Ymyriad | Sgiliau Cywir | | | Gwyrdd | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ambr | Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyflawnadwy o hyd |
| Yn Arwain | Guy Lacey a Martin Featherstone | Cyfnod Adrodd | Chwarter 3 2019-20 | Coch | Cynnydd ymhell o fwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

- Project wedi'i ddatblygu gyda Ffilm Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r ystod o gyfleodd gyrfa ynghylch y diwydiant ffilm (gyda ffocws arbennig ar ymgysylltu â phobl ifanc o'r gymuned pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- Sefydlwyd grŵp i ddatblygu digwyddiad digidol i ddisgyblion blwyddyn 9 i greu dealltwriaeth o'r cyfleoedd am swyddi yn y maes digidol/technoleg yn y ddinas.
- Cafodd cyflogwyr eu recriwtio ar gyfer Addewid Casnewydd Mae'r adduned cyflogwr hwn yn dod â chyflogwyr a phobl ifanc a phobl sy'n ddi-waith yn hirdymor at ei gilydd, gan greu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a datblygu sgiliau.
- Cynhaliwyd gweithdy gyda Phenaethiaid er mwyn nodi a rhannu manylion gweithgareddau darganfod gwaith mewn ysgolion, ffyrdd y gallai cyflogwyr gynnig rhagor o gymorth a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rhwystrau i waith sy'n digwydd mewn ysgolion. Datblygwyd cyfeiriadur o weithgarwch dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith a'i ddosbarthu i Benaethiaid.
- Mae gwaith yn parhau ar Broject Integreiddio Ffoaduriaid Restart ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys asesu sgiliau iaith Saesneg unigolion a chyfeirio pobl at gymorth priodol a hyfforddiant cyflogaeth.
- Codi ymwybyddiaeth trwy bapur newydd Materion Casnewydd, o Gyfrifon Dysgu Personol Llywodraeth Cymru sydd ar hyn o bryd yn cael eu peilota yng Nghasnewydd trwy Goleg Gwent

| Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd | Statws (U/C/I) | Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen |
|---|---|---|
| Diffyg cefnogaeth gan ddarparwyr / dysgwyr. | M | Nodi cyfleoedd ymgysylltu a chyfathrebu. |

| Mesurau Perfformiad Allweddol | Targed | Gwirio neddol | CAG |
|---|---|---|---|
| % y disgyblion blwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant | 1.4% | Ffigwr ar gael ym mis Mai 2020 | |
| % y disgyblion blwyddyn 13 sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant | 1.7% | Ffigwr ar gael ym mis Mai 2020 | |
| Nifer y digwyddiadau cyflogaeth/sgiliau yn y ddinas | 3 | 2 | A |
| Project Restart: Asesu unigolion ar gyfer sgiliau iaith Saesneg a'u cyfeirio at gymorth (Mehefin 2019 – Mawrth 2020) | 52 | 76 | G |
| Mynychu digwyddiadau cyflogaeth/sgiliau Sgiliau Cywir | 2,000 | 1,826 | G |

## Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

- Lansio Addewid Casnewydd Mawrth 2020; datblygu cynllun gweithredu er mwyn i ysgolion ymgysylltu
- Cyflwyno project gyda Ffilm Cymru Ebrill 2020
- Cydlynu Wythnos Addysg Oedolion yng Nghasnewydd ar gyfer Mehefin 2020
- Datblygu digwyddiad Digidol ar gyfer ysgolion i'w gynnal yn yr hydref 2020
- Ystyried cynllun mentora ac ail-ymweld â'r cynllun Prentisiaeth BGC